

<b>CYFARFOD</b>	<b>Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>19 Mawrth 2019</b>
<b>TEITL</b>	<b>Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Rheolwr Harbwr/Hafan Pwllheli</b>

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Pwllheli.
- 1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod rhwng mis Hydref 2018 a Mawrth 2019, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

## 2. Materion Gweithredol

### Mordwyo

- 2.1 Cynhelir archwiliad manwl o gymhorthion mordwyo Pwllheli gan arolygwyr Awdurdod Goleudy Tŷ'r Drindod ym mis Awst 2019.
- 2.2 Nid oes unrhyw Rybudd i Forwyr yn weithredol yn Harbwr Pwllheli ar hyn o bryd er ei bod hi'n hanfodol tynnu sylw at ddiffyg lled y sianel yn ardal mynedfa'r harbwr. Rhagwelir y bydd y sefyllfa'n gwella ar ôl i'r gwaith carthu gael ei gwblhau yn 2019. Cyflwynir adroddiad PANAR gan y Gwasanaeth at sylw Tŷ'r Drindod bob chwarter. Mae'n adrodd ar safle pob Cymhorthydd Mordwyo dan reolaeth a chyfrifoldeb y Cyngor.

### Cynnal a Chadw

- 2.3 Caiff rhestr o'r gwaith fydd yn cael ei gwblhau neu sydd wedi ei gwblhau yn yr Hafan ei chynnwys yn yr adroddiad hwn. Gofynnir am adborth gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch unrhyw waith arall fydd angen ei ystyried a'i gynnwys yn y rhaglen waith.
- 2.4 Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr hyn a ganlyn: -
  - Prynu pwmp tanwydd newydd
  - Gwaith cynnal tiroedd ychwanegol
  - Gosod system hunan wasanaeth petrol
- 2.5 Anfonwyd archeb i 'HTEC' i gyflenwi cyfleuster hunanwasanaeth ar gyfer pwmp tanwydd petrol i Gei Petrol yr Hafan. Gobeithiwn y bydd y pwmp petrol newydd yn weithredol ym mis Ebrill yn dilyn oedi byr gyda gwaith papur. Bydd y pwmp tanwydd Disel yn parhau fel gwasanaeth gan weinydd yn unig am y tro.
- 2.6 Oherwydd oedran un o'r pypiau tanwydd ar y cei (dros ddeng mlwydd oedd), penderfynwyd newid y pwmp hynaf - bydd hyn yn sicrhau bod llai o bethau'n methu a llai o broblemau gyda danfon tanwydd i gwsmeriaid.

### **3. Materion Staffio**

- 3.1 Nid oes unrhyw swyddi gwag ym Mhwillheli ar hyn o bryd. Cyfanswm y staff yw 11 sy'n cynnwys un swyddog diogelwch dros nos o "Draig Security".
- 3.2 Bydd swydd dymhorol gweinydd tanwydd y cei yn dod i ben ddiwedd mis Ebrill. Er bydd gennym gyfleuster hunanwasanaeth ar gyfer petrol, bydd angen gweinydd ar gyfer y pwmp disel o hyd.

### **4. Ystadegau Blynyddol yr Harbwr/Hafan**

- 4.1 Mae manylion ystadegau'r Hafan a'r Harbwr ar gyfer 2018/2019 wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.
- 4.2 Oherwydd yr oedi mewn anfon y cytundebau angori eleni, nid yw nifer deiliaid yr angorfeydd gennym eto - y sawl a fydd yn ail-ymuno ai peidio. Fel y disgwyliwyd yng nghyfarfod Ymgynghorol yr Harbwr ym mis Hydref 2018, bydd nifer y cychod a elwir yn gychod ymweld gymaint ag yn 2017. Yn 2017 cafwyd 1359 o gychod ymweld ac yn 2018 cafwyd 1310 o gychod ymweld, hyd at ddiwedd mis Chwefror 2019.
- 4.3 Angorfeydd yr Harbwr - eto, fel gyda'r Hafan, nid ydym yn gwybod faint fydd yn ail-ymuno.
- 4.4 Teclyn Codi Cychod - er bod mis Ionawr/Chwefror yn fisoedd go dawel (fel bob blwyddyn) mae hyn yn ddefnyddiol i ryddhau rhai aelodau staff y teclyn codi i ymgymryd â dyletswyddau cynnal a chadw ar y pontynau. Mae dyddiadur y teclyn codi ym mis Mawrth/Ebrill yn ymddangos yn eithaf prysur ar hyn o bryd.
- 4.5 Mae gwerthiant tanwydd yn gyson gyda 2017, gyda dim ond ychydig o ostyngiad mewn gwerthiant disel ond ychydig o gynnydd mewn gwerthiant petrol.
- 4.6 Cyfrifon yr Hafan - o fis Ebrill 2019, bydd system gyfrifo Hafan Pwllheli yn cael ei drosglwyddo a'i ganoli yn adran incwm Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon, bydd pob anfoneb yn y dyfodol e.e. ar gyfer angori, yn cael ei chodi a'i hanfon o'r adran hon. Bydd yr holl daliadau angori, gan gynnwys Debyd Uniongyrchol, yn mynd i Gyngor Gwynedd yn uniongyrchol. Disgwylir hefyd y bydd cwsmeriaid yn gallu talu ar-lein am wasanaethau yn y dyfodol.

### **5. Cwt cychod newydd yr RNLI**

- 5.1 Mae gwaith clirio ardal ger Llain yr Hafan ar gyfer cwt cychod newydd yr RNLI wedi dechrau. Rhagwelir y bydd y gwaith yn dechrau go iawn ym mis Mai 2019.